Federation of Museums and Art Galleries of Wales
Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

GŴYL AMGUEDDFEYDD CYMRU
WELSH MUSEUMS FESTIVAL

**2023**

# Gwybodaeth am Grantiau

Mae Gŵyl Amgueddfeydd Cymru yn annog amgueddfeydd ac orielau ledled Cymru i roi cyfle i ymwelwyr fwynhau amrywiaeth o ddigwyddiadau yn ystod gwyliau hanner tymor mis Hydref.

Mae Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru yn cynnig grantiau i gefnogi digwyddiadau yn ystod Gŵyl Amgueddfeydd Cymru. Mae pob amgueddfa ac oriel achrededig (neu sy'n gweithio tuag at hynny) yng Nghymru yn gymwys i wneud cais.

## 1. Gŵyl Amgueddfeydd Cymru 2023

<u>Nodau</u>

- Codi ymwybyddiaeth a thynnu sylw at effeithiau cadarnhaol Amgueddfeydd Cymru ar ymwelwyr, rhanddeiliaid a'r cyfryngau
- Cynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau cyffrous, difyr ac annisgwyl ddydd a nos
- Rhoi cyfle i Amgueddfeydd Cymru roi cynnig ar rywbeth newydd i ymestyn cynulleidfaoedd presennol
- Rhoi cyfle i Amgueddfeydd Cymru feithrin sgiliau staff wrth gynllunio digwyddiadau, marchnata a chynhyrchu incwm

<u>Gwybodaeth Gyffredinol</u>

- Mae Gŵyl Amgueddfeydd Cymru 2022 ar ddydd Sadwrn 28 Hydref i ddydd Sul 5 Tachwedd, gan gyd-daro â –
    - Gwyliau Hanner Tymor yr ysgolion (Yng Nghymru a Lloegr)
    - Noson Galan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt
- Fe all pob amgueddfa ac oriel yng Nghymru gofrestru digwyddiad fel rhan o Ŵyl Amgueddfeydd Cymru.
- Byddwch yn arloesol a chreadigol – meddyliwch am ddigwyddiadau fydd yn denu cynulleidfaoedd newydd a sylw yn y wasg

- Ceir cynnal digwyddiadau ar y safle neu ar-lein
- Os ydych yn cynllunio digwyddiad corfforol/gweithgaredd ar y safle, rhodder gwybod inni sut y byddwch yn cynnal y digwyddiad o hyd os ceir cyfnod clo Cofid-19 ychwanegol (DS: bydd ein gwefan newydd ar gyfer yr Ŵyl yn gallu lletya digwyddiadau rhithiol er enghraifft)

## 2. Arian grant

- Mae grantiau o hyd at £500 y digwyddiad hyd at uchafswm o £1000 ar gael
- Does dim gofyn am arian cyfatebol ond byddem yn croesawu grantiau sy'n cefnogi prosiectau mwy
- Gellir ariannu prosiectau sy'n ehangach nag un amgueddfa trwy gyfrwng consortiwm. Rhaid i amgueddfa arweiniol wneud cais ar ran consortiwm a bodloni meini prawf y grant
- Mae hon yn gronfa grant gystadleuol
- Gellir cynnwys costau staff y tu allan i oriau arferol os gellir cyfiawnhau hynny
- Bydd rheolau perthnasol eraill ar gyfer bod yn gymwys ar gyfer y rhaglen grantiau bach yn gymwys

## 3. Amodau'r grant

Rhaid i bob un sy'n derbyn grant gadw at yr amodau canlynol -

- Rhaid i brosiectau fod â chysylltiad â nodau Gŵyl Amgueddfeydd Cymru a'u cynnal rhwng 28 Hydref a 5 Tachwedd 2022
- Rhaid i amgueddfeydd ddefnyddio brandio dwyieithog priodol Gŵyl Amgueddfeydd Cymru ar bob deunydd hyrwyddo
- Rhaid i amgueddfeydd gymryd rhan yn y broses werthuso ac annog ymwelwyr i gwblhau'r arolwg
- Rhaid i amgueddfeydd ddarparu crynodeb byr o'r prosiect i'w gyhoeddi yn YMAG ac annog amgueddfeydd eraill i gymryd rhan yng ngwyliau'r dyfodol

## 4. Meini prawf o ran asesu

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu yn ôl y meini prawf canlynol –

- Tystiolaeth o waith arloesol/creadigol i ymestyn sylfaen y gynulleidfa
- Bodloni nodau Gŵyl Amgueddfeydd Cymru
- Cynllunio digwyddiad gan gynnwys marchnata, cyllideb a staffio
- Effaith y prosiect ar amgueddfeydd/sefydliadau partner

## 5. Y Broses Ymgeisio

- Rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio'r ffurflen cais am grant erbyn 17.00pm **dydd Gwener 15 Medi.**
- Rhaid cyflwyno ceisiadau at Chris Delaney trwy e-bost at lin.chris@btinternet.com

- Rhaid gyrru anfonebau erbyn diwedd Tachwedd 2022 at lin.chris@btinternet.com

## 6. Manylion Cyswllt

I gael gwybodaeth am yr arian grant cysylltwch â –
Chris Delaney – lin.chris@btinternet.com